CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, a'i gynhaliwyd Nos Iau, 9fed o Hydref 2025

Yng Nghlwb Chwarae Pwllheli, Efailnewydd am 7.30 yh

Presennol:

Cynghorwyr

Hughie Williams, Phil Roberts, Dafydd Llewelyn Williams, Catherine Hughes, Tesni Jones, Anne Jones a Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

Ymddiheuriadau

Cynghorydd Anwen Davies (Sirol), Rhys Jones, Gareth Roberts, Wynne Davies, Einir Lewis, Nia Jones.

Cadarnhau Cofnodion

Bu i Tesni a Dafydd gadarnhau bod cofnodion 11fed o Fedi, 2025 yn gofnod cywir.

Cyfethol Cynghorydd Newydd – Ardal Buan

Croesawyd Anne Jones fel Cynghorydd newydd i gynrychioli Ardal Buan.

Arwyddwyd ffurflen datganiad derbyn y swydd gan Anne yn ystod y cyfarfod.

Nodwyd Anne ei bod wedi mynychu'r hyfforddiant "New Councillor Induction" ers iddi gael ei hethol.

Gohebiaeth

Derbynniwyd llythyr gan Theatr Bara Caws ynghlyn a chymorth ariannol. Penderfynnwyd rhoi £100 o rodd iddynt.

Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd yr un Cais Cynllunio o'r newydd wedi codi.

Cais Cynllunio

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA

Rhoddwyd diweddariad ar y cais yma – bod yr achos yn mynd i dreibiwnal.

Materion Ariannol

Bu i'r Cynghorwyr dderbyn y datganiadau Banc canlynol – 04/09/25-03/10/25.

Cysoniad banc o ddyddiad :

04/09/2025 – 03/10/2025 - £4,474.37c

Cafodd 7 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Tesni Jones a'r Cynghorydd Catherine Hughes. Roedd cyfanswm y sieciau yn £545.47c.

Siec Rhif 200905	Ad-daliad i'r Clerc am dalu am yr Antivirus	£109.99
Siec Rhif 200906	Hurio Ystafell yn Clwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd	£20.00
Siec Rhif 200907	Cyllid a Thollau	£53.80c
Siec Rhif 200908	Cyflog y Clerc (Mis 7)	£215.00
Siec Rhif 200909	Costau Teithio'r Clerc	£4.68c
Siec Rhif 200910	Cyfraniad Ariannol Theatr Bara Caws	£100.00
Siec Rhif 200911	Un Llais Cymru – Hyfforddiant Anne Jones	£42.00

Diweddariad y Plac i'r Fainc ym Moduan

Nodwyd y Cadeirydd ei fod wedi cael sgwrs gyda MT, rydym yn disgwyl i MT gwblhau'r gwaith.

Cysytllu gyda'r Adran Briffyrdd

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto gyda'r Adran Briffyrdd er mwyn gofyn am ddiweddariad i'r cwynion isod a godwyd mis Medi

- Nodwyd bod tyllau yn y ffordd yn parhau rhwng Nant Pwdin a Llidiart Dŵr, rhwng Rhydyclafdy a Nanhoron.

- Nodwyd bod arwyddion ffordd yn parhau i fod ar Lôn Llyn ym Moduan, ac nid oes neb wedi eu casglu. A yw'r lôn bellach yn agored i allu ei defnyddio ? A oes posib cael diweddariad ?
- Nodwyd bod dŵr yn hel wrth ymyl Giât Uchaf lôn Cefn Mine, a fyddai modd gyrru archwiliwr yno i gael golwg?
- Nodwyd bod "gulleys" wrth ymyl Pant Glas (ar y ffordd rhwng Efailnewydd a Rhydyclafdy) yn llawn, a fyddai modd gyrru archwiliwr yno i gael golwg?
- **Cwyn sydd wedi ei grybwyll ers mis Mehefin 2025**- Trafodwyd mater o ddŵr yn sefyll ar y lôn o flaen Glanrafon, ym Moduan. Mae dŵr sylweddol yn casglu yma pan fydd glaw trwm. Nodwyd bod Glyn Titus (Priffyrdd, Pwllheli) yn ymwybodol o'r dŵr yma, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i'w hysbysu o'r broblem. A fyddai modd rhoi sylw buan i'r gwyn yma, gan yrru archwiliwr yno i gael golwg, a rhoi diweddariad i ni?

Nodwyd bod gwaith barbio gwrychoedd wedi cymryd lle rhwng Efailnewydd a Rhydyclafdy a bod y gwaith yn daclus iawn.

Unrhyw Fater Arall

Ad-hawlio TAW

Trafodwyd yr angen i wneud cais i ad-hawlio'r TAW yn ôl ar gyfer 2024. Gofynnwyd i'r Clerc yrru copiau o'r anfoneb a'r fantolen banc ymlaen i Gwmni Bacstal er mwyn gweithredu.

Cais Cynllunio Peg & Mallet

Bu i'r Clerc gysylltu gyda Chlerc Cyngor Cymuned Llannor 12.09.25 er mwyn ei holi os oedd Cais Cynllunio wedi ei wneud ar gyfer creu maes parcio sylweddol dros y ffordd ar Maes Carafanau Peg & Mallet rhwng y Ffôr a Rhosfawr. Nodwyd nad oedd yn ymwybodol eu bod wedi cyflwyno cais cynllunio er mwyn creu'r maes parcio dros y ffordd i'r safle garafannau.

Nodwyd ar sawl achlysur lle mae gwaith yn cael ei wneud gyntaf, ac wedyn yn gofyn am hawl cynllunio. Nodwyd ei fod wedi anfon rhywbeth llynedd at gorfodaeth cynllunio (Cyngor Gwynedd) yn holi am hyn, ond nad oedd wedi cael ymateb.

Nodwyd y Cadeirydd ei fod am gael sgwrs hefo Annwen Davies, i ddilyn y mater i fyny.

Arwyddion

Yn ystod cyfarfod mis Medi bu i Wynne Davies grybwyll bod arwyddion ar ochr y ffordd ym Mangor Is-y-coed ac wrth fynd dros Bont Britannia i nodi bod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn yr Ardal, ac yn nodi'r dyddiad. Roedd yn meddwl y byddai'n syniad i ni edrych i mewn i'r mater, a chael rhai or fath ym Moduan.

Er mwyn i'r Clerc gael syniad o sut mae'r arwyddion yn edrych, cytunodd Einir i fynd heibio'r arwydd yn Ynys Môn er mwyn tynnu llun o'r arwydd. Bu i Einir fynychu'r safle 17.09.25 a ni welwyd yr un arwydd. Bu iddi holi mewn siop ym Mhorthaethwy ble ddywedwyd bod yr arwydd wedi cael ei dynnu i lawr am y tro, gan fod Eisteddfod yr Urdd yn ymweld a'r Ynys yn ystod 2026.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Aneurin Môn Parry er mwyn adrodd ar yr angen i dorri'r coed o Blas Boduan i fyny Lôn Llyn. Maent wedi tyfu'n sylweddol.

Gofynnwyd i'r Clerc nodi i lawr "Tendr Torri Gwellt" ar agenda Mis Tachwedd.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – Nos Iau, 13eg Tachwedd, 2025, 7.30 y.h yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd.